



Eluned Morgan AC  
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)

05/02/2019

Annwyl Eluned Morgan

### Ymchwilio a Gorfodi

Diolch am eich gohebiaeth a dderbyniwyd ar 26 Tachwedd mewn cysylltiad â gweithio'n effeithlon o dan ddarpariaethau Rhan 5, Mesur y Gymraeg. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am gymryd amser i ystyried gweithrediad Rhan 5 y Mesur ac am gynnig peth arweiniad yn rhinwedd eich rôl fel Gweinidog y Gymraeg.

Wrth drafod eich llythyr mewn cyfarfod o'r Tîm Rheoli nodwyd er cywirdeb mai gweision sifil, nid y Comisiynydd, gododd y pwynt ynghylch cyflwyno trefn datrysiad buan drwy newid deddfwriaethol.

Ar 5 Rhagfyr bu i'r Comisiynydd gwrdd gyda chi ac egluro ei bod wedi gofyn am gyngor cyfreithiol pellach er mwyn rhoi sylw dyladwy i'ch llythyr. Derbyniwyd y cyngor hwnnw ddechrau Ionawr. Gallaf gadarnhau bod swyddogion yn rhoi sylw i'r cyngor cyfreithiol a gafwyd ar hyn o bryd.

Gan fod tymor y Comisiynydd presennol yn dirwyn i ben ddiwedd Mawrth ystyriwyd ei bod yn bwysig cynnwys Mr Aled Roberts yn rhan o drafodaethau sy'n ymwneud â'r materion a godwyd yn eich llythyr. Gobeithiaf y cytunwch bod hynny'n gam teg a rhesymol yn y cyfnod trosiannol sydd ohoni. Yng ngoleuni hynny hoffwn gynnig y dylid ail gydio yn y drafodaeth hon yn ystod y gwanwyn.

Yr eiddoch yn gywir,

Gwenith Price  
**Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg**

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales